# Polisi Sachau Tywod – Taflen Ffeithiau

Nod Polisi Sachau Tywod Cyngor Sir Ceredigion yw pennu'r blaenoriaethau ar gyfer dosbarthu sachau tywod pan geir llifogydd. Gwasanaeth gwirfoddol yw cyflenwi sachau tywod ac ni all Cyngor Sir Ceredigion warantu y bydd yn dosbarthu sachau tywod i bobman lle mae eu hangen.

**Perchennog yr eiddo sydd bennaf gyfrifol am amddiffyn eiddo rhag llifogydd.**

## Blaenoriaethau

Mewn tywydd gwael pan fo perygl go iawn o lifogydd, gall Cyngor Sir Ceredigion ddarparu sachau tywod llawn i dai a busnesau ar gais. Caiff pob cais ei ystyried a'i roi yn nhrefn blaenoriaeth yn unol â'r amgylchiadau cyfredol, beth bynnag yw tarddiad y llifogydd. Pennwyd y blaenoriaethau canlynol:

- Diogelu bywydau
- Amddiffyn pobl agored i niwed, yr henoed neu bobl fregus
- Amddiffyn seilwaith allweddol (amddiffynfeydd rhag llifogydd, isbwerdai, cyflenwadau dŵr, priffyrdd ac yn y blaen)
- Amddiffyn cyfleusterau ac adeiladau allweddol yn y gymuned
- Amddiffyn busnesau ac eiddo masnachol.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn ymateb i geisiadau gan y Gwasanaethau Brys am sachau tywod i amddiffyn eiddo strategol.

## Dosbarthu

Pan fo'r perygl o lifogydd yn fawr, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud ei orau glas, ar gais, i ddosbarthu sachau tywod i eiddo preswyl pan fydd y llifogydd ar ddod. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n bosibl bob amser oherwydd y galw a/neu'r tywydd.

Fel arfer dosberthir sachau tywod i'r man agosaf posibl at y briffordd.

Ni chaiff aelodau o'r cyhoedd gasglu sachau tywod llawn o unrhyw ddepo Cyngor Sir Ceredigion.

Pan ddarperir sachau tywod, y sawl sy'n eu derbyn fydd yn gyfrifol amdanynt. Ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn unrhyw atebolrwydd am y modd y cânt eu gosod; ni fydd Cyngor Sir Ceredigion ychwaith yn gyfrifol am gasglu na gwaredu unrhyw sachau tywod a ddosberthir.

## Cyngor ar Lifogydd

Gallwch gael mwy o gyngor ar lifogydd a'r perygl i'ch eiddo ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: http://cyfoethnaturiol.cymru, gan gynnwys gwybodaeth am:

- Sut i ddiogelu'ch eiddo rhag llifogydd
- Lleihau'r perygl o lifogydd yn difrodi'ch eiddo
- Nwyddau a gwasanaethau diogelu rhag llifogydd
- Sut i gofrestru gyda gwasanaeth rhybuddio Floodline (0345 988 1188)